**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ar-lein ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023 am 4.30pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd T Williams |

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha

**16 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Bradwick ac A O Rogers.

**17 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD –** Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant personol canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda “Rydw i'n adnabod un o'r busnesau yn yr adroddiad yn dda iawn”.

**18 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**19 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5

Medi 2023 yn rhai cywir.

## 20 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor sy'n trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Awst 2023 a 26 Tachwedd 2023, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 45 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 54 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 15 wedi'u rhoi i glybiau preifat. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod lefel y ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn parhau i fod yn uchel ac mae hyn i'w ddisgwyl adeg yma o'r flwyddyn. Hefyd, wrth i fis Awst ddod i ben, newidiodd y gwyliau bwyd, a ddefnyddiodd y caniatâd dros dro i werthu alcohol, i bartïon Calan Gaeaf, achlysuron tân gwyllt, ffeiriau Nadolig a cheisiadau am ymestyn oriau agor safleoedd â thrwydded. Yn ogystal â hynny, mae'r achlysuron tymhorol yma ar ben y ceisiadau arferol am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro rydyn ni'n eu derbyn yn ystod y flwyddyn ar gyfer achlysuron codi arian a gweithgareddau chwaraeon.

Cafodd Aelodau wybod ei bod hi'n adeg brysur o hyd i'r garfan gyda chynnydd yn nifer y ceisiadau am drosglwyddo, newid goruchwyliwr dynodedig mangre (DPS) a mân amrywiadau. Bydd rhai o'r rhain o ganlyniad i achosion o dor rheolau wedi'u nodi gan Swyddogion yn ystod arolygiadau trwyddedu.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod un cais wedi'i herio ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor. Roedd hynny'n ymwneud â gwrthod rhoi trwydded safle gan y byddai'n tanseilio'r amcanion trwyddedu o ran trosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed. Yn ogystal â hynny, mae canlyniad un adolygiad o ran y cyfnod wedi'i benderfynu gan Heddlu De Cymru ar gyfer No 12 Drinks Emporium, Pontypridd, lle penderfynodd yr Is-bwyllgor atal y drwydded am gyfnod o 6 wythnos o ganlyniad i achosion parhaus o beidio â chydymffurfio, diffyg hyder yn y rheolwyr a thanseilio'r amcan trwyddedu Trosedd ac Anhrefn. Hefyd, roedd Hen Swyddfa'r Post (Squares), Porth, wedi apelio a chynhaliwyd y gwrandawiad ar 9 a 10 Hydref 2023 ac roedd y Barnwr Rhanbarth o'r farn nad oedd y sŵn yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus ac roedd o blaid yr apelydd, Gold Bar Two Ltd, sy'n golygu bod modd i'r safle barhau i fasnachu gyda'i amodau trwyddedu gwreiddiol.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Adroddwyd mai'r lefel cyflawniad bresennol ar gyfer safleoedd wedi'u harolygu yw 90%.

Cafodd Aelodau wybod bod tafarn yn Aberpennar wedi dod i sylw'r garfan yn ddiweddar o ganlyniad i ymddygiad diangen y perchennog tuag at Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wrth iddi gyflawni'i dyletswyddau. Hefyd disgrifiwyd y gwryw'n rhwystrol ac yn ymosodol ac roedd i'w weld yn feddw. O ganlyniad i hyn, roedd y Swyddog wedi teimlo bod angen iddi adael y safle a dychwelyd ar ddyddiad arall. Yn ogystal â hynny, siaradodd Swyddogion Trwyddedu â'r Goruchwyliwr Dynodedig Mangre y diwrnod nesaf a chadarnhawyd ei bod hi'n ymddeol yr wythnos ganlynol ond roedd perchennog y safle wedi bod yn achosi problemau. Mae Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol a Heddlu De Cymru wedi ymweld â'r safle ac wedi cynnig cyngor i'r Goruchwyliwr Dynodedig Mangre newydd, yn enwedig o ran gwerthu alcohol i berson sy'n feddw.

Adroddwyd bod honiadau o ddefnydd cyffuriau y tu allan ac y tu mewn i siop sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn ardal Pen-y-waun wedi dod i law ym mis Hydref. Arweiniodd hyn at ymweliad gan Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol a Heddlu De Cymru. Ni welwyd tystiolaeth o ddefnydd cyffuriau ond roedd y Goruchwyliwr Dynodedig Mangre yn absennol. Daethpwyd â'r hawl i werthu alcohol i ben yn dilyn yr ymweliad yma a daeth cais newydd i law wythnos yn ddiweddarach am newid y Goruchwyliwr Dynodedig Mangre.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod y Garfan Drwyddedu wedi derbyn honiadau am Ddeiliad Trwydded Bersonol a Goruchwyliwr Dynodedig Mangre tafarn yn Nhreherbert yn bod yn ymosodol tuag at gwsmeriaid wrth fod yn feddw. Roedd hefyd honiadau o ran cyflwr cyffredinol a gwaith cynnal a chadw'r adeilad. Arweiniodd hyn at ymweliad gan Swyddogion Trwyddedu a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ym mis Hydref, lle rhoddwyd cyngor llawn. Anfonwyd llythyr rhybudd ar ôl yr ymweliad yma hefyd.

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod bod clwb rygbi yng Nghwm Rhondda wedi cysylltu am eglurhad ar y ddeddfwriaeth o ran plant ar y safle a rhoddwyd canllawiau llawn. Roedd y ffaith bod y safle yma wedi cysylltu yn braf iawn o ystyried yr achosion blaenorol o beidio â chydymffurfio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gwaith partneriaeth rhwng y garfan drwyddedu a safleoedd â thrwydded mor bwysig ac mae bob amser yn gadarnhaol pan fo hyn yn digwydd.

Cafodd Aelodau wybod bod nifer o gwynion wedi dod i law am safle â thrwydded yng Nghwm Clydach, gan gynnwys gwerthu alcohol i bobl nad ydyn nhw'n ddigon hen a niwsans o ran sŵn o ganlyniad i achlysur a gafodd ei gynnal ym mis Medi. Roedd honiadau hefyd fod rheolwyr y safle yn anghwrtais ar ddiwrnod yr achlysur pan aeth trigolyn lleol atyn nhw'n uniongyrchol i gwyno. Arweiniodd hyn at gwyn i'r garfan drwyddedu. Yn ogystal â hyn, er gwaethaf ymdrechion ar y cyd gan

Swyddogion Trwyddedu, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Heddlu De Cymru, dydy'r Goruchwyliwr Dynodedig Mangre ddim wedi cwrdd â swyddogion i drafod hyn. Byddan nhw'n parhau i gysylltu â'r safle.

Adroddwyd bod siop sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn ardal Glyn-coch yn masnachu heb Oruchwyliwr Dynodedig Mangre ac arweiniodd hyn at Swyddogion yn dod â'r hawl i werthu alcohol i ben. Hefyd, roedd y safle wedi cael ei werthu i berchennog newydd ond doedd dim cais am drosglwyddo wedi cael ei gyflwyno. Rhoddwyd cyngor addas ac mae'r safle bellach yn cydymffurfio.

Cafodd Aelodau wybod bod ymchwiliad i ddigwyddiad yng ngardd gwrw tafarn ym Mhentre'r Eglwys yn mynd rhagddo o hyd. Taflodd menyw wydraid at fenyw arall a arweiniodd at yr angen iddi gael pwythau ar ei hwyneb. Aeth Swyddogion Trwyddedu o Heddlu De Cymru a'r Awdurdod Lleol i'r safle a siaradon nhw â'r Goruchwyliwr Dynodedig Mangre a oedd newydd ddechrau yn y swydd ond roedd wedi gweithio yn y safle ers nifer o flynyddoedd. Roedd yr Awdurdodau'n fodlon bod y dafarn wedi ymddwyn yn briodol a doedd dim problemau trwyddedu i'w nodi.

Cafodd Aelodau wybod bod clwb golff yn ardal Taf-elái wedi derbyn cyngor gan Swyddogion Trwyddedu o ran achlysur tân gwyllt. Dyma oedd yr achlysur tân gwyllt cyntaf i'r safle ei gynnal a chafodd y cyngor ei groesawu. Daeth neges ddiweddar gan y clwb golff i law a oedd yn diolch i'r swyddogion am eu cymorth ac yn nodi bod yr achlysur wedi bod yn llwyddiannus.

Gofynnodd siop gyffredinol yn Llantrisant, a oedd eisiau gwneud cais am Drwydded Safle, am gyngor a chyfarwyddyd. Hefyd, cafodd cyfarfod cyn cyflwyno cais ei argymell.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa y cafodd cyfarfod cyn cyflwyno cais ei gynnal ar gyfer safle lluniaeth gyda'r hwyr presennol yng nghanol tref Pontypridd. Aeth swyddogion o'r Awdurdod Trwyddedu a Heddlu De Cymru i'r cyfarfod a gofynnodd deiliad y drwydded am gyngor i aros ar agor tan 5am yn y lle cyntaf. Rhoddodd yr Awdurdodau Cyfrifol eu pryderon o ran hyn ac mae deiliad y drwydded yn ystyried y cyngor a roddwyd.

O ran adennill y ffïoedd blynyddol, cafodd Aelodau wybod bod trwyddedau nifer o safleoedd wedi cael eu hatal o ganlyniad i beidio â thalu. Cafodd hyn yr effaith a oedd ei hangen gan fod taliadau bellach wedi dod i law ac mae trefniadau atal wedi'u diddymu. Mae ffigur mawr o ran anfonebau heb eu talu ac mae hyn yn normal ar gyfer adeg yma y flwyddyn gan fod anfonebau newydd wedi cael eu cyflwyno a bydd swyddogion yn gofyn am y taliadau yma yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Tynnodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio sylw Aelodau at adran 5.1 yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad iddyn nhw mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005.

Cafodd Aelodau grynodeb o ganiatâd presennol mewn perthynas â phroffil masnachu safleoedd â thrwydded.

**21 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**22 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 21.08.23 - 26.11.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 21 Awst 2023 a 26 Tachwedd 2023 i'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**